



Arolwg Defnyddwyr
Llyfrgell Genedlaethol Cymru:
Adroddiad Canfyddiadau

Tabl cynnwys

Cefndir.....	2
Methodoleg.....	3
Canfyddiadau.....	5
Gwybodaeth Ddemograffig.....	32
Adborth gan rai nad ydynt yn defnyddio Llyfrgell Genedlaethol Cymru.....	36
Atodiad A – Holiadur.....	37

Cefndir Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'r arolwg

Saif Llyfrgell Genedlaethol Cymru (y Llyfrgell) yn Aberystwyth, ar arfordir Ceredigion. Mae'n un o'r chwe llyfrgell adnau yn y DU a'r unig llyfrgell adnau cyfreithiol yng Nghymru. Mae hyn yn rhoi iddi'r hawl i ofyn am unrhyw ddeunydd print neu ddi-brint ym Mhrydain ac Iwerddon.

Sefydlwyd y Llyfrgell gan Siarter Frenhinol ar 19 Mawrth 1907. Dirymodd Siarter Atodol 2006 y Siarter atodol gynharach a dyfarnu y dylai Bwrdd o Ymddiriedolwyr ei llywodraethu. Mae'r Llyfrgell hefyd yn Elusen ac yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Ei phrif ffynhonnell incwm yw'r cymorth grant blynyddol a ddaw gan Lywodraeth Cymru (LIC).

Mae'r Siarter Frenhinol yn nodi mai diben craidd y Llyfrgell yw casglu, diogelu a chynnig mynediad i bob math o wybodaeth a gofnodwyd, yn enwedig mewn cysylltiad â Chymru, y Gymraeg a phobloedd Celtaidd eraill, a hynny er budd y cyhoedd, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag ymchwil a dysgu.

Cydweithiodd Llywodraeth Cymru â'r Llyfrgell i gymryd rhan yn yr Adolygiad Pwrpasol cyntaf yng Nghymru fel rhan o raglen adolygu bwrpasol y llywodraeth o'i chyrrff hyd braich. Yn rhan o'r broses adolygu, mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus wedi comisiynu'r Gangen Ymchwil Gorfforaethol i ddatblygu arolwg ar-lein mewn trafodaeth â'r Llyfrgell a'r arweinyddion noddi ar gyfer Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

Diben yr arolwg yw sefydlu gwybodaeth am y Llyfrgell, ei defnydd, bodlonrwydd pobl â'r Llyfrgell, a dod o hyd i awgrymiadau i wella amrywiaeth gwasanaethau'r Llyfrgell, ei chyfleusterau, casgliadau, gwasanaethau ar-lein a'i hygyrchedd.

Caiff adroddiad yr arolwg ei gynnwys yn adroddiad yr Adolygiad Pwrpasol a gyflwynir i Fwrdd Effeithlonrwydd Llywodraeth Cymru, a fydd yn gweithredu fel y Panel Herio ar gyfer swyddogion cyfrifyddu Llyfrgell Genedlaethol Cymru a LIC. Caiff hefyd ei gynnwys yn yr adroddiad a gyhoeddwyd yn sgil hynny yn dilyn cyflwyno adroddiad y Panel Herio i'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth.

Mae adroddiad yr arolwg yn cynnwys:

- Gwybodaeth gryno am fethodoleg yr ymchwil, gan gynnwys y sampl, cynnwys yr arolwg a'r dadansoddiad
- Demograffeg y rhai sy'n ymateb i'r arolwg
- Canfyddiadau o ran pa mor aml y mae ymatebwyr yn ymweld â safleoedd daearyddol a digidol y Llyfrgell

- Dadansoddiad o ymwybyddiaeth, defnydd, bodlonrwydd ac awgrymiadau'r ymatebwyr i wella amrywiaeth gwasanaethau'r Llyfrgell ei chyfleusterau, casgliadau, gwasanaethau ar-lein, a'i hygyrchedd
- Adborth gan rai nad ydynt yn defnyddio'r Llyfrgell
- Copi o holiadur yr arolwg (gweler Atodiad A)

Gellir cyfeirio unrhyw gwestiynau am yr arolwg at y Gangen Ymchwil Gorfforaethol drwy e-bostio corporateresearch@gov.wales.

Methodoleg

Cynhaliwyd arolwg ar-lein (mae'r holiadur i'w weld yn Atodiad A) gan ddefnyddio meddalwedd cynnal arolygon Questback. Roedd yr arolwg ar gael yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg. Lansiodd yr arolwg ar-lein ar yr 21 Awst 2019 a daeth i ben ar 11 Medi 2019. Cynhaliwyd yr ymchwil gan Gangen Ymchwil Gorfforaethol Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru.

Sampl

Roedd modd i unrhyw un ymateb i'r arolwg ar-lein, yn ddefnyddwyr y Llyfrgell a rhai nad ydynt yn ei defnyddio. Anfonwyd negeseuon e-bost at ddefnyddwyr y Llyfrgell ac at randdeiliaid i'w dosbarthu ymhellach gan ddefnyddio rhestrau postio presennol y Llyfrgell a'r Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd. Hysbysebwyd yr arolwg hefyd ar wefannau Llywodraeth Cymru a'r Llyfrgell, yn y Llyfrgell a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol. Cafwyd 91 ymateb.

Yr Arolwg

Datblygwyd cwestiynau'r arolwg gan y Gangen Ymchwil Gorfforaethol mewn cydweithrediad â'r Arweinwyr Noddi a'r Llyfrgell, gyda'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn hwyluso. Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau caeedig ac agored. Defnyddiwyd graddfeydd Likert i bennu amllder defnydd a bodlonrwydd â gwasanaethau, cyfleusterau, casgliadau a hygyrchedd y Llyfrgell. Defnyddiwyd cwestiynau amlddewis i gasglu adborth gan ddefnyddwyr ar yr agweddau ynghylch pa welliannau neu weithgareddau yr hoffent i'r Llyfrgell eu blaenoriaethu yn ystod y pum mlynedd nesaf. Cafodd ymatebwyr gyfle i gyflwyno sylwadau agored drwy gydol yr arolwg.

Dadansoddiad

Defnyddiwyd Excel i lunio ystadegau disgrifiadol ar gyfer data meintiol a gasglwyd drwy gwestiynau caeedig. Dylai darllenwyr yr adroddiad hwn nodi, er bod 91 unigolyn wedi ymateb i'r arolwg yn gyffredinol, na wnaeth pawb ateb pob cwestiwn.


Roedd unigolion yn ateb gwahanol rannau o'r holiadur yn dibynnu ar eu hymatebion i gwestiynau blaenorol ac felly bydd nifer yr ymatebwyr i bob cwestiwn yn amrywio, fel y nodir ar waelod y graffiau. Yn ogystal â hyn, cafodd categorïau ymateb penodol eu hepgor o'r dadansoddiad mewn rhai cwestiynau, sydd wedi effeithio ar y sylfaen mewn rhai ffigurau. Trafodir y rhain yn yr adrannau perthnasol. Wrth ddehongli'r graffiau, dylai'r darllenwyr fod yn ymwybodol bod y graffiau'n dangos gwerthoedd crwn, ac na fyddant o bosibl yn cyfateb yn union i 100%. Cafodd data ansoddol a gasglwyd drwy sylwadau agored eu codio a'u dadansoddi'n thematig. Trefnwyd y sylwadau agored fesul grŵp a thema o dan adrannau perthnasol yr adroddiad hwn, ni waeth pa gwestiwn arolwg a gyflwynwyd.

Canfyddiadau

Defnyddio Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Mae'r adran hon yn crynhoi'r wybodaeth a gasglwyd am amllder defnyddio Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Ffigur 1




Sylfaen: 90¹

Fel y dengys Ffigur 1, dywedodd deg y cant o'r ymatebwyr eu bod wedi ymweld â'r Llyfrgell yn bersonol unwaith yr wythnos neu fwy, ymwelodd 22 y cant fwy nag unwaith y mis ond llai nag unwaith yr wythnos, roedd 38 y cant yn ymweld fwy nag unwaith y flwyddyn ond llai nag unwaith y mis a dywedodd 14 y cant eu bod yn ymweld â'r Llyfrgell yn bersonol unwaith y flwyddyn neu lai. Dywedodd 16 y cant o'r ymatebwyr nad oeddent byth yn ymweld â'r Llyfrgell.

¹ Hepgorwyd y categori 'Arall' o'r dadansoddiad gan nad oedd yr ymatebion o dan y categori hwn yn rhoi amserlenni penodol

Ffigur 2




Sylfaen: 91

Fel y dengys Ffigur 2, dywedodd 32 y cant o'r ymatebwyr eu bod wedi defnyddio adnoddau digidol y Llyfrgell unwaith yr wythnos neu fwy, dywedodd 32 y cant eu bod yn eu defnyddio fwy nag unwaith y mis ond llai nag unwaith yr wythnos a dywedodd 18 y cant eu bod yn eu defnyddio fwy nag unwaith y flwyddyn ond llai nag unwaith y mis. Dywedodd deg y cant o'r ymatebwyr eu bod wedi defnyddio'r adnoddau digidol unwaith y flwyddyn neu lai a dywedodd naw y cant nad oeddent byth yn defnyddio'r adnoddau.

Ymwybyddiaeth a phrofiad o wasanaethau Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Mae'r adran hon yn crynhoi'r wybodaeth a gasglwyd am ymwybyddiaeth defnyddwyr, amlder defnydd a lefelau bodlonrwydd â gwasanaethau'r Llyfrgell.

Ffigur 3




Sylfaen: 85, 86, 86, 83, 83, 88

Fel y dengys Ffigur 3, roedd yr ymwybyddiaeth o wasanaethau yn amrywio. Canfuwyd bod pobl yn fwyaf ymwybodol o'r gwasanaeth ymholiadau (89%) a'r gwasanaeth addysg (87%). Canfuwyd bod pobl leiaf ymwybodol o'r gwasanaethau gofyn am gopiâu o bell (62%) a digideiddio ar gais (51%).

Darparwyd nifer fach o sylwadau am ymwybyddiaeth o wasanaethau, a oedd yn dangos ymwybyddiaeth gyfyngedig o fodolaeth gwasanaethau ac i bwy y maent ar gael.

Ffigur 4




Sylfaen: 52, 67, 62, 68, 40, 76

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o bob gwasanaeth pa mor aml yr oeddent yn defnyddio'r gwasanaeth hwnnw. Fel y dengys Ffigur 4, yn gyffredinol dywedwyd mai'r gwasanaeth ymholiadau a'r gwasanaeth reprograffeg oedd y gwasanaethau a ddefnyddiwyd fwyaf, ac mai'r gwasanaethau addysg a digideiddio ar gais oedd y rhai a ddefnyddiwyd leiaf.

O'r gwasanaethau a ddefnyddiwyd amlaf, dywedodd 18 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn defnyddio'r gwasanaeth reprograffeg o leiaf unwaith y mis a dywedodd 46 y cant nad oeddent erioed wedi defnyddio'r gwasanaeth. Dywedodd 15 y cant o'r ymatebwyr eu bod wedi defnyddio'r gwasanaeth ymholiadau o leiaf unwaith y mis a dywedodd 42 y cant nad oeddent erioed wedi defnyddio'r gwasanaeth.

O'r gwasanaethau a ddefnyddiwyd leiaf, dywedodd un y cant o'r ymatebwyr eu bod yn defnyddio'r gwasanaeth addysg o leiaf unwaith y mis a dywedodd pump y cant o'r ymatebwyr eu bod yn defnyddio'r gwasanaeth digideiddio ar gais o leiaf unwaith y mis. Dywedodd 76 a 70 y cant o'r ymatebwyr nad oeddent erioed wedi defnyddio'r gwasanaethau hyn, yn y drefn honno.

Ffigur 5



Sylfaen: 20, 35, 32, 21, 20, 45 ²

Fel y dengys Ffigur 5, roedd yr ymatebwyr ar y cyfan yn fodlon iawn â phob un o'r gwasanaethau, gydag ychydig iawn yn dweud eu bod yn anfodlon.

Y gwasanaethau ymchwil gafodd y sgôr uchaf o ran bodlonrwydd gyda 94 y cant o'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth a neb yn dweud eu bod yn anfodlon.

Gwasanaethau eraill y dywedodd pobl eu bod yn fodlon iawn â nhw oedd y gwasanaethau ymholiadau a reprograffeg, gyda 84 y cant yn dweud eu bod yn fodlon ar y naill, ac 83 y cant yn dweud eu bod yn fodlon ar y llall. Dywedodd chwech y cant eu bod yn anfodlon â'r gwasanaeth ymholiadau.

Y gwasanaeth addysg a digideiddio ar gais oedd y gwasanaethau â'r lefelau isaf o fodlonrwydd. Dywedodd 66 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth addysg. Roedd gan y gwasanaeth hwn sgôr niwtral fawr (33%), a allai ddangos nad oedd yr ymatebwyr yn teimlo y gallent roi barn am y gwasanaeth hwn neu iddynt gael profiadau cymysg. Dywedodd 70 y cant o'r

² Hefgorwyd y categori ' Nid wyf wedi defnyddio'r gwasanaeth hwn' o'r dadansoddiad i helpu i ddehongli canlyniadau


ymatebwyr eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth digideiddio ar gais, er i nifer fach ddweud eu bod yn anfodlon â'r gwasanaeth hwn (5%).

Yn y sylwadau agored, roedd yr awgrymiadau ar gyfer gwella yn tueddu i fod wedi'u clystyru o amgylch y thema allweddol o wella mynediad i wasanaethau'r Llyfrgell. Er enghraifft, awgrymwyd bod y tâl am y gwasanaeth digideiddio ar gais yn ddrud o'i gymharu â sefydliadau tebyg eraill. Teimlwyd bod y tâl o £20 am drwyddedau ffotograffiaeth yn rhy ddrud, ac yn effeithio ar hygyrchedd archifau'r Llyfrgell. Awgrymwyd hefyd y gellid gwneud y broses o awdurdodi mynediad ac atgynhyrchu deunydd yn symlach. Awgrymwyd y gellid gwella cyflymder y gwasanaeth reprograffeg. Cafwyd rhai sylwadau am yr angen i wella mynediad i wasanaethau digideiddio, er enghraifft, drwy ei gwneud hi'n haws i ofyn am gopiâu o bell neu drwy ddarparu gwasanaethau wedi'u galluogi'n ddigidol ledled Cymru.

Ymwybyddiaeth a phrofiad o gyfleusterau Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Mae'r adran hon yn crynhoi'r wybodaeth a gasglwyd am ymwybyddiaeth defnyddwyr, amllder defnydd a lefelau bodlonrwydd â gwasanaethau'r Llyfrgell.

Ffigur 6




Sylfaen: 76, 76, 77, 75, 76, 76, 77, 77.

Fel y dengys Ffigur 6, roedd yr ymatebwyr yn gyffredinol yn ymwybodol iawn o gyfleusterau'r Llyfrgell, er eu bod yn llai ymwybodol o rai cyfleusterau.

Dywedodd cant y cant o'r ymatebwyr eu bod yn ymwybodol o ystafelloedd darllen a chyfleusterau arddangos a dehongli. Dywedodd yr ymatebwyr hefyd eu bod yn ymwybodol iawn o ddigwyddiadau cyhoeddus (99%), y siop (97%) a'r bwyty (97%).

Y cyfleusterau yr oedd yr ymatebwyr yn lleiaf ymwybodol ohonynt oedd llogi lleoliad (76%), manau tawel (72%) a digwyddiadau tymhorol arbennig (67%).

Ffigur 7




Sylfaen: 48, 74, 75, 55, 75, 52, 77, 76

Fel y dengys Ffigur 7, yn gyffredinol, dywedwyd mai'r bwyty a'r ystafelloedd darllen oedd y cyfleusterau a oedd yn cael eu defnyddio fwyaf, tra mai llogi lleoliad oedd y cyfleuster a oedd yn cael ei ddefnyddio leiaf.

Dywedodd 30 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn defnyddio'r bwyty o leiaf unwaith y mis a dywedodd naw y cant nad oeddent byth yn defnyddio'r cyfleuster hwn. Dywedodd 25 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn defnyddio ystafelloedd darllen o leiaf unwaith y mis, a dywedodd 27 y cant nad oeddent erioed wedi defnyddio'r cyfleuster hwn. Y cyfleusterau yr oedd y lleiaf o'r ymatebwyr yn eu defnyddio'n rheolaidd oedd: llogi lleoliad (heb unrhyw ymatebwyr yn defnyddio'r cyfleuster hwn o leiaf unwaith y mis a 69 y cant o'r ymatebwyr byth yn ei ddefnyddio), a digwyddiadau tymhorol arbennig (gyda dau y cant yn defnyddio'r cyfleuster hwn o leiaf unwaith y mis a 40 y cant byth yn ei ddefnyddio).

Ffigur 8



Sylfaen: 34, 66, 69, 25, 66, 39, 61, 69³

Fel y dengys Ffigur 8, ar y cyfan roedd yr ymatebwyr yn fodlon iawn â phob un o'r gwasanaethau gydag ychydig iawn yn dweud eu bod yn anfodlon.

Roedd yr ymatebwyr yn fwyaf bodlon â'r digwyddiadau cyhoeddus, gydag 88 y cant yn fodlon â'r gwasanaeth a dau y cant yn anfodlon.

Gwasanaethau eraill yr oedd pobl yn fodlon â nhw oedd llogi lleoliad, ystafelloedd darllen, digwyddiadau tymhorol arbennig a'r siop. Dywedodd 87 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn fodlon â'r ystafelloedd darllen gyda dau ymatebydd yn dweud eu bod yn anfodlon, a dywedodd 86 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn fodlon â'r siop gyda dau y cant yn dweud nad oeddent. Dywedodd 84 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn fodlon â'r cyfleuster llogi lleoliad, ac roedd wyth y cant yn anfodlon, gydag 82 y cant o'r

³ Hefgorwyd y categori 'Nid wyf wedi defnyddio'r cyfleuster hwn' o'r dadansoddiad i helpu i ddehongli'r canlyniadau

ymatebwyr yn dweud eu bod yn fodlon â'r digwyddiadau tymhorol arbennig, a neb yn dweud eu bod yn anfodlon.

Canfuwyd bod llai o bobl yn fodlon â'r manau tawel, gyda 70 y cant o'r ymatebwyr yn fodlon. Serch hynny, ychydig iawn oedd yn anfodlon â'r gwasanaeth hwn (3%).

Gellir rhannu'r sylwadau agored am gyfleusterau unigol y llyfrgell i'r categorïau eang canlynol: arddangosfeydd; digwyddiadau; ystafelloedd darllen; arlwy a manwerthu; a sylwadau sy'n ymwneud â'r adeilad ei hun.

Roedd yr adborth am yr arddangosfeydd yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda'r ymatebwyr yn sôn am ansawdd 'rhagorol' yr arddangosfeydd yn y Llyfrgell. Un awgrym ar gyfer gwella oedd y dylai arddangosfeydd gynnwys mwy o wybodaeth eglurhaol yn ymyl y darnau. Awgrym arall oedd y dylai'r arddangosfeydd ehangu eu hapêl er mwyn denu cynulleidfaoedd newydd a/neu iau. Cyfeiriodd rhai sylwadau at ddefnyddio gofod Llyfrgell ar gyfer arddangosfeydd, gydag ymatebydd yn awgrymu y dylid newid y prif gyntedd i fod yn dderbynfa a siop, a throï'r lloriau uchaf yn fannau arddangos.

Yn gyffredinol, roedd sylwadau agored yn cadarnhau bod y digwyddiadau yn y Llyfrgell yn ddiddorol ac o ansawdd da. Fodd bynnag, dywedodd rhai ymatebwyr fod lleoliad y safle yn gwneud digwyddiadau yn y Llyfrgell yn anodd eu cyrraedd. Mae awgrymiadau o ran gwella hygyrchedd safle'r Llyfrgell mewn cysylltiad â theithio wedi'u cynnwys yn yr adran ar hygyrchedd y Llyfrgell (tudalen 22).

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai digwyddiadau apelio at ystod ehangach o gynulleidfa, ac awgrymwyd y dylai'r Llyfrgell drefnu digwyddiadau ar gyfer pobl ifanc a theuluoedd er mwyn datblygu cynulleidfaoedd newydd ar gyfer y dyfodol. Ystyriwyd hefyd bod angen i'r Llyfrgell hyrwyddo'r digwyddiadau a'r cyfleusterau presennol yn well i'r cyhoedd ehangach. Yn olaf, dywedodd un ymatebydd a oedd wedi llogi cyfleusterau'r llyfrgell eu bod o'r farn bod y gost o logi yn ddrud, ac y gallai'r Llyfrgell gynnig mwy o gymorth i'r rhai sydd wedi llogi cyfleusterau.

Yn gyffredinol, roedd y sylwadau agored am yr ystafelloedd darllen yn mynegi'r awydd am fwy o fannau tawel i ddefnyddio llyfrau, yn enwedig yng ngoleuni'r tarfu diweddar oherwydd gwaith adeiladu, a mynegodd un sylwebydd ddymuniad i weld y ddwy ystafell ddarllen yn agor eto yn y dyfodol. Yn olaf, cafwyd awgrym y dylai'r Llyfrgell barhau i ddatblygu cysylltiadau â phrifysgolion, er mwyn i fyfyrwyr ddefnyddio mwy ar gyfleusterau'r ystafell ddarllen.

Dywedodd nifer o'r ymatebwyr y gellid gwella'r bwyd a weinir yn y caffi, gan gyfeirio'n benodol at yr angen am fwy o gynigion llysieuol a fegan. Awgrymwyd hefyd y dylai'r bwyty ymestyn ei oriau gwasanaethu. Dywedodd ambell un hefyd bod angen gweini prydau a dognau mwy addas i blant yn y caffi.

O ran y siop, roedd rhai yn teimlo bod yr eitemau ar werth yno'n ddrud, ac awgrymwyd bod y siop yn stocio rhai eitemau rhatach.


Yn olaf, roedd sawl sylw'n ymwneud â'r defnydd o ofod ar safle'r Llyfrgell.

Teimlwyd bod modd ei gwneud hi'n haws i bobl symud o gwmpas yr adeilad, a sicrhau bod mwy o seddau ar gael ym mhob man.

Ymwybyddiaeth a phrofiad o gasgliadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Mae'r adran hon yn crynhoi'r wybodaeth a gasglwyd ynglŷn ag ymwybyddiaeth defnyddwyr, amlder defnydd a pha mor fodolon ydynt gyda chasgliadau'r Llyfrgell.

Ffigur 9



Sylfaen: 87, 88, 88, 87, 88, 86, 86, 88, 88, 86, 87, 87


Fel y dengys Ffigur 9, yn gyffredinol roedd yr ymatebwyr yn ymwybodol o gasgliadau'r Llyfrgell, er bod mwy o ymwybyddiaeth o rai casgliadau nag eraill.

Y casgliadau y dywedodd yr ymatebwyr yr oeddent yn fwyaf ymwybodol ohonynt oedd archifau a llawysgrifau (100%) a llyfrau printiedig (98%).

Ymhlith y casgliadau eraill y dywedodd pobl eu bod yn ymwybodol iawn ohonynt oedd casgliadau papurau hanesyddol (95%), mapiau (94%), y casgliad ffotograffau (92%) ac archifau gwleidyddol (91%).

Y casgliadau y dywedodd yr ymatebwyr eu bod leiaf ymwybodol ohonynt oedd yr adneuo cyfreithiol electronig a'r casgliad effemera (59% ar gyfer y ddau).

Ffigur 10




Sylfaen: 48, 83, 73, 80, 79, 74, 48, 76, 84, 72, 76, 85

Mae Ffigur 10 yn rhoi dadansoddiad o'r rhai a atebodd eu bod yn ymwybodol o gasgliad, ac yn dangos pa mor aml yr oeddent yn defnyddio'r casgliad hwnnw.

Fel y dangosir yn Ffigur 10, y casgliad a ddefnyddiwyd amlaf oedd E-adnoddau, gyda 66% yn dweud eu bod yn defnyddio'r casgliad hwn ddwywaith y flwyddyn neu fwy.

Canfuwyd bod cryn ddefnydd hefyd ar y casgliad ffotograffau, archifau a llawysgrifau, a llyfrau printiedig, gyda 43, 41, a 40 y cant o'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn defnyddio'r casgliadau hyn ddwywaith y flwyddyn neu fwy, yn y drefn honno. Y casgliad y dywedodd yr ymatebwyr eu bod yn ei ddefnyddio leiaf aml oedd y casgliad effemera, gydag wyth y cant o'r ymatebwyr yn dweud eu bod wedi defnyddio'r casgliad hwn ddwywaith y flwyddyn neu fwy.

Ffigur 11



Sylfaen: 75, 74, 75

Fel y dengys Ffigur 11, dywedodd yr ymatebwyr eu bod yn fwyaf bodlon â gwybodaeth staff y Llyfrgell am y casgliadau, gydag ychydig y llai o fodlonrwydd o ran defnyddio catalog y Llyfrgell yn hawdd.

Roedd ychydig o dan dri chwarter (73%) o'r ymatebwyr yn cytuno bod staff y Llyfrgell yn wybodus am y casgliadau, gydag un y cant yn anghytuno'n gryf â'r datganiad hwn.

Roedd yr ymatebwyr yn llai cadarnhaol am ba mor hawdd oedd cael gafael ar yr hyn yr oeddwn yn chwilio amdano yng nghatalog y llyfrgell. Roedd yn hawdd dod o hyd i'r hyn yr oeddwn yn chwilio amdano yng nghatalog y llyfrgell, gyda 61 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno â'r datganiad hwn.

Roedd nifer debyg o'r ymatebwyr (60%) yn cytuno ei bod yn hawdd dod o hyd i'r hyn yr oeddent yn chwilio amdano yng nghatalog y llyfrgell, gyda 21 y cant yn anghytuno.

Yn gyffredinol, roedd sylwadau agored yn gadarnhaol am yr ystod o gasgliadau ac archifau a oedd gan y Llyfrgell. Cyfeiriwyd at y Llyfrgell fel 'trysor cenedlaethol', gyda'r sylwadau'n pwysleisio gwerth y Llyfrgell fel stordy o ddeunyddiau yn ymwneud â diwylliant a hanes Cymru. Fodd bynnag, dywedwyd bod y casgliadau'n ddiffygiol o ran deunydd am gymunedau lleiafrifoedd ethnig ac LGBT+.

Roedd y gwelliannau a awgrymwyd yn ymwneud yn bennaf â gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r casgliadau. Roedd pobl o'r farn y dylai'r Llyfrgell barhau i farchnata ei chasgliadau i'w chynulleidfaoedd academiaidd, yn ogystal â chynulleidfaoedd newydd. Ystyriwyd bod prosesau fel digideiddio casgliadau yn


allweddol i'r nod hwn, gydag un sylw'n canmol digideiddio papurau newydd yn benodol. Fodd bynnag, teimlwyd bod hygyrchedd yr archif delweddau symudol yn cael ei lesteirio gan ddiffyg hygyrchedd y catalog. Nodwyd hefyd bod presenoldeb ar-lein casgliad delweddau symudol y Llyfrgell yn wan, o'i gymharu â llyfrgelloedd ac archifdai cenedlaethol eraill.

Awgrymwyd y gallai'r Llyfrgell hyrwyddo ei chasgliadau'n ehangach, gydag un ymatebydd yn ystyried y gellid egluro cwmpas a chylch gwaith casgliadau i ddefnyddwyr. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys bod y Llyfrgell yn cynnal arddangosfeydd o'r eitemau yn ei chasgliadau yn amlach. Cyfeiriwyd yn benodol at yr angen i hysbysebu Archif Gerddoriaeth Genedlaethol Cymru i'r rhai o fewn y diwydiant cerddoriaeth.

Defnydd a phrofiad o wasanaethau ar-lein Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Mae'r adran hon yn crynhoi'r wybodaeth a gasglwyd am amllder defnydd a lefelau bodlonrwydd â gwasanaethau ar-lein y Llyfrgell

Ffigur 12



Sylfaen: 81, 82, 80, 81, 82 ⁴

Fel y dengys Ffigur 12, yn gyffredinol dywedodd yr ymatebwyr mai'r gwasanaethau ar-lein a ddefnyddiwyd amlaf ganddynt oedd y catalog ar-lein, yr adnoddau llyfrgell ar-lein a gwybodaeth am y llyfrgell ar y wefan. Y siop ar-lein a'r gwasanaeth ymholiadau ar-lein gafodd eu defnyddio leiaf.


Dywedodd 56 y cant o'r ymatebwyr eu bod wedi defnyddio'r catalog ar-lein o leiaf unwaith y mis a dywedodd 13 y cant nad oeddent byth yn defnyddio'r gwasanaeth hwn. Dywedodd 54 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn defnyddio adnoddau llyfrgell ar-lein o leiaf unwaith y mis, er y dywedodd 17 y cant nad oeddent erioed wedi defnyddio'r gwasanaeth hwn.

⁴ Hefgorwyd y categori 'arall' o'r dadansoddiad oherwydd nad oedd ymatebion o dan y categori hwn

Dywedwyd hefyd y cafwyd cryn ddefnydd o wybodaeth am y Llyfrgell ar y wefan, gyda 47 y cant o'r ymatebwyr yn defnyddio'r wefan o leiaf unwaith y mis a naw y cant byth yn defnyddio'r gwasanaeth hwn.

Y gwasanaethau ar-lein y dywedodd yr ymatebwyr eu bod yn defnyddio leiaf oedd: y siop ar-lein (gyda 2% o'r ymatebwyr yn defnyddio'r gwasanaeth hwn o leiaf unwaith y mis a 74% byth yn ei ddefnyddio) ac ymholiadau ar-lein (gydag 8% o'r ymatebwyr yn defnyddio'r gwasanaeth hwn o leiaf unwaith y mis a 66% byth yn ei ddefnyddio).

Ffigur 13



Sylfaen: 77, 77, 78, 79.

Fel y dengys Ffigur 13, roedd dros hanner yr ymatebwyr yn fodlon â phob agwedd ar y gwasanaethau ar-lein, gydag apêl weledol y gwasanaethau ar-lein yn cael y sgôr gadarnhaol uchaf.

Roedd 60 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno â'r datganiad diwethaf 'Mae gwasanaethau ar-lein Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn ddeniadol i'r llygad'.

Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (52%) yn cytuno a 27 y cant yn anghytuno â'r datganiad 'Mae'n hawdd llywio gwasanaethau ar-lein Llyfrgell Genedlaethol Cymru'. Roedd 51 y cant yn cytuno â'r datganiadau 'Mae'n hawdd dod

o hyd i'r hyn yr wyf yn chwilio amdano drwy wasanaethau ar-lein Llyfrgell Genedlaethol Cymru' ac 'Mae'n hawdd cael gafael ar yr wybodaeth sydd ei hangen arnaf drwy wasanaethau ar-lein Lyfrgell Genedlaethol Cymru', a rhoddodd tua chwarter yr ymatebwyr (28 y cant a 25 y cant, yn y drefn honno) sgôr negyddol ar gyfer y datganiadau hyn.

Cafodd sylwadau agored ar wasanaethau ar-lein eu crynhoi'n fras i dri chategori: adnoddau ar-lein, catalog ar-lein y llyfrgell, a'r wefan.

Roedd sylwadau mewn cysylltiad ag adnoddau ar-lein yn gadarnhaol i raddau helaeth o ran ystod ac amrywiaeth y deunydd a oedd ar gael ar-lein, gyda Phapurau Newydd Cymru Ar-lein, ewyllysiau, Maldwyn, Cyfnodolion a mapiau'r degwm yn cael canmoliaeth neilltuol. Roedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol fod Cylchgronau Cymru Ar-lein yn cynnig diwyg PDF unwaith eto, ac roeddent o'r farn bod yr adnoddau wedi cael eu gwella drwy fod yn fwy cyson o ran eu cyflwyniad.

Fodd bynnag, roedd sylwadau ar y catalog ar-lein yn tynnu sylw at lawer o feysydd i'w gwella, yn enwedig o ran cael gafael ar wybodaeth a chwilio drwy'r catalog. Nodwyd y gellid gwella'r swyddogaeth chwilio trwy gategoreiddio canlyniadau. Dywedwyd hefyd bod canlyniadau lluosog yn ymddangos wrth chwilio'r catalog ar-lein sy'n anodd eu mireinio.

Roedd y meysydd penodol a awgrymwyd ar gyfer gwella yn cynnwys: chwilio drwy gyfnodolion fesul teitl neu awdur unigol, a defnyddio Cyfeirnod Grid Cenedlaethol i chwilio Gwefan Lleoedd Cymru.

Roedd sylwadau agored ar y wefan hefyd yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella. Cafwyd adborth gan ddefnyddwyr eu bod yn teimlo ei bod yn anodd llywio gwefan y Llyfrgell. Awgrymwyd y gellid 'symleiddio' y wefan, gyda chanllawiau clir i ddefnyddwyr newydd ar sut i gael gafael ar wybodaeth yn ymwneud â'r gwahanol wasanaethau ar-lein. At hynny, teimlwyd y gellid diweddarau'r siop ar-lein.


Dywedodd un ymatebydd ei fod yn gyndyn o feirniadu'r wefan, gan ei fod yn ymwybodol ei bod yn her bodloni disgwyliadau'r cyhoedd o ran gwasanaethau digidol ar gyllideb dynn.

O ran marchnata'r gwasanaethau ar-lein yn gyffredinol i'r cyhoedd, teimlwyd y gellid gwneud mwy i hysbysu'r cyhoedd ehangach bod modd defnyddio llawer o adnoddau'r Llyfrgell ar-lein.

Defnyddio Gwasanaethau'r Llyfrgell

Mae'r adran hon yn rhoi adroddiad ar ganfyddiadau o ran dewis iaith, lefelau bodlonrwydd o ran cael gafael ar wasanaethau yn Gymraeg a Saesneg, a mynediad i bobl anabl.


Ffigur 14



Sylfaen: 88

Fel y dengys Ffigur 14, roedd yn well gan ychydig dan hanner yr ymatebwyr gael gwasanaethau a gwybodaeth o'r Llyfrgell bob amser neu'n bennaf yn Saesneg (45%). Roedd 28 y cant o'r ymatebwyr yn ffafrio cael gwasanaethau a gwybodaeth yn Gymraeg bob amser neu'n bennaf, ac roedd 26 y cant yn ffafrio defnyddio gwasanaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Ffigur 15




Sylfaen: 62, 62.

Gofynnwyd i'r rhai a ddywedodd eu bod yn well ganddynt ddefnyddio gwasanaethau a chael gafael ar wybodaeth bob amser neu'n bennaf yn Saesneg, neu yn Gymraeg a Saesneg, pa mor fodlon oeddent â defnyddio gwasanaethau llyfrgell yn Saesneg. Fel y dengys Ffigur 15, roedd yr ymatebwyr yn fodlon ar y cyfan â rhyngweithio â staff y Llyfrgell a defnyddio gwasanaethau a chael gafael ar wybodaeth gan y Llyfrgell yn Saesneg.

Roedd ychydig dros dri chwarter (77%) o'r ymatebwyr yn cytuno ac wyth y cant yn anghytuno â'r datganiad 'Mae'n hawdd defnyddio gwasanaethau a chael gafael ar wybodaeth gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn Saesneg'.

Roedd dros ddwy ran o dair (67%) o'r ymatebwyr yn cytuno ac roedd pump y cant o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r datganiad 'Mae'n hawdd rhyngweithio â staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Saesneg'. Nid oedd dros chwarter yr ymatebwyr (27%) yn cytuno nac yn anghytuno â'r cwestiwn hwn. Efallai fod hyn yn dangos nad oeddent wedi rhyngweithio digon â'r staff yn Saesneg i allu rhoi sylwadau, neu fod eu profiadau wedi amrywio.

Ffigur 16




Sylfaen: 46, 47

Gofynnwyd i'r rhai a ddywedodd ei bod yn well ganddynt ddefnyddio gwasanaethau a chael gafael ar wybodaeth yn Gymraeg bob amser neu'n bennaf yn Gymraeg, neu yn Gymraeg a Saesneg, pa mor fodlon oeddent â defnyddio gwasanaethau'r Llyfrgell yn Gymraeg. Fel y dengys Ffigur 16, roedd yr ymatebwyr yn fodlon ar y cyfan â rhyngweithio â staff y Llyfrgell a defnyddio gwasanaethau a chael gafael ar wybodaeth yn Gymraeg.

Roedd mwyafrif (89%) yr ymatebwyr yn cytuno ac nid oedd unrhyw ymatebwyr yn anghytuno â'r datganiad 'Mae'n hawdd rhyngweithio â staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Gymraeg'.

Roedd ychydig dros dri chwarter (77%) o'r ymatebwyr yn cytuno, ac roedd pedwar y cant yn anghytuno â'r datganiad 'Mae'n hawdd defnyddio gwasanaethau a chael gafael ar wybodaeth gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn Gymraeg'.

Ffigur 17



Sylfaen: 79.

Fel y dengys Ffigur 17, dywedodd ychydig dros dri chwarter yr ymatebwyr (77%) nad oedd ganddynt unrhyw gyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol, salwch, hirdymor nam neu anabledd. Dywedodd 13 y cant o'r ymatebwyr fod ganddynt gyflwr corfforol neu feddyliol hirdymor, ac roedd yn well gan ddeg y cant o'r ymatebwyr beidio ag ateb y cwestiwn hwn.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a ddywedodd fod anabledd arnynt am hygyrchedd y Llyfrgell a'i gwasanaethau. Ychydig a atebodd y cwestiwn hwn (10) ac felly rhoddir y canlyniadau mewn rhifau yn hytrach na chanrannau. Roedd wyth ymatebydd yn cytuno ac roedd un yn anghytuno â'r datganiad 'Rwy'n ei chael yn hawdd cael gafael ar wasanaethau ar-lein Llyfrgell Genedlaethol Cymru'. Roedd chwe ymatebydd yn cytuno a dau yn anghytuno â'r datganiad 'Rwy'n ei chael yn hawdd defnyddio cyfleusterau ar safle'r llyfrgell'. Dywedodd pum ymatebydd eu bod o'r farn bod casgliadau'r Llyfrgell yn hawdd cael gafael arnynt, ond dywedodd pedwar nad oeddent. Cytunodd tri o'r rhai a ymatebodd ac anghytunodd pedwar â'r datganiad 'Rwy'n ymwybodol o sut i wneud cais am addasiadau rhesymol penodol gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru'.

Roedd sylwadau agored ynghylch hygyrchedd y gwasanaethau a chyfleusterau'r Llyfrgell yn ymwneud yn bennaf â hygyrchedd y safle yn Aberystwyth.

Cododd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch hygyrchedd safle'r Llyfrgell oherwydd y cysylltiadau trafniadaeth cyfyngedig, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n byw ymhellach i ffwrdd neu'r rhai na allant gerdded i'r Llyfrgell. Un awgrym oedd y dylai digwyddiadau gael eu ffrydio'n fyw er mwyn iddynt fod yn hygyrch o bell.

Awgrymwyd hefyd y byddai cynnig mwy o wybodaeth yn ymwneud â'r Llyfrgell a'i deunyddiau yn annog y rhai sy'n byw ymhellach i ffwrdd i ymweld â'r safle.

Dywedodd un ymatebydd, sy'n byw ymhell o'r Llyfrgell, ei fod yn gyndyn o ymweld â'r safle gan ei fod yn ansicr pa ddeunyddiau sy'n cael eu storio yn y Llyfrgell a sut i gael gafael arnynt.


Canolbwyntiodd ymatebwyr eraill ar hygyrchedd y cyfleusterau a'r gwasanaethau o fewn yr adeilad ei hun. Roedd awgrymiadau ar gyfer gwella'r elfen hon yn cynnwys yr angen i hwyluso pethau i bobl fyddar drwy osod system ddolen yn y Drwm ac yn ystafelloedd y cyngor ac addysg. Dywedodd un ymatebydd sydd â phroblemau symudedd fod y grisiau a'r coridorau'n 'ddryslyd'. Nodwyd bod y gwaith adeiladu presennol wedi cyfyngu ar hygyrchedd safle'r Llyfrgell.

Un agwedd y dywedwyd ei bod yn chwarae rhan allweddol o ran hygyrchedd y Llyfrgell oedd y staff. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn ystyried eu bod yn gymwynasgar, yn groesawgar, ac yn meddu ar arbenigedd cryf o ran y casgliadau. Mae trafodaeth bellach o ran adborth ar staff wedi'i chynnwys ar dudalen 30.

Adborth ar y Gwasanaeth Addysg

Mae'r adran hon yn crynhoi'r wybodaeth a gasglwyd gan ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn defnyddio'r Gwasanaeth Addysg.

Ffigur 18



Sylfaen: 16, 16.

Dywedodd nifer fach o'r ymatebwyr eu bod wedi defnyddio'r Gwasanaeth Addysg. Gan mai ychydig a atebodd y cwestiwn hwn, byddwch yn arbennig o ofalus wrth

ddehongli'r canlyniadau. Efallai fod nifer yr ymatebwyr yn fach yr adran hon oherwydd amseriad yr arolwg, a gynhaliwyd yn ystod gwyliau'r haf a dechrau'r flwyddyn ysgol newydd.

Fel y dengys Ffigur 18, nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn defnyddio'r Gwasanaeth Addysg wedi defnyddio'r agweddau ar y gwasanaeth addysg yr holwyd cwestiynau amdanynt.

Dywedodd saith ymatebydd (44%) eu bod wedi defnyddio'r adnoddau addysgol ar-lein a ddarparwyd gan y Llyfrgell a dywedodd pedwar (25%) eu bod wedi bod ar ymweliadau neu mewn digwyddiadau a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth Addysg.

Gofynnwyd i'r rhai a oedd wedi defnyddio'r adnoddau addysg ar-lein ac a fu ar ymweliadau ac mewn digwyddiadau am adborth ar eu profiad o'r gwasanaethau. Roedd y gyfradd ymateb ar gyfer y grwpiau hyn yn fach iawn. Er mwyn celu enwau'r ymatebwyr, hepgorwyd y cwestiynau hyn o'r dadansoddiad gan y cafwyd llai na 10 ymateb. Fodd bynnag, yn gyffredinol, roedd y rhai a oedd wedi defnyddio'r gwasanaethau hyn yn fodlon iawn â nhw.


Roedd sylwadau agored am y gwasanaeth addysg yn canolbwyntio i raddau helaeth ar werth partneriaeth ac allgymorth yn y sector addysg. Awgrymwyd y gallai'r llyfrgell ddatblygu mentrau megis cynnal cynadleddau ar bynciau fel hanes neu gerddoriaeth Cymru, y gellid eu ffrydio'n fyw i fyfyrwyr chweched dosbarth ledled Cymru. Roedd ymatebydd arall yn gadarnhaol am y gwaith a oedd wedi'i wneud gyda chyrrff cyhoeddus eraill (fel CADW ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru) wrth ddatblygu adnoddau addysgol. Awgrymwyd y dylid datblygu rhagor o adnoddau digidol yn y modd hwn.

Yn olaf, soniodd yr ymatebwyr am werth allgymorth a phartneriaeth â'r sector addysg fel ffordd o feithrin cynulleidfaoedd newydd i'r llyfrgell ymysg y genhedlaeth iau. Dywedwyd y gallai fod gan y gwasanaeth addysg, yn benodol, swyddogaeth bwysig i'w chwarae i helpu i gyflawni'r amcanion a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Llunio ein dyfodol

Mae'r adran hon yn crynhoi'r canfyddiadau o ran y gwelliannau y mae'r ymatebwyr eisiau i'r Llyfrgell eu blaenoriaethu dros y pum mlynedd nesaf. Sylwch y gallai'r ymatebwyr ddewis hyd at 3 ateb, ac felly mae cyfanswm canran yr ymatebwyr sy'n dewis pob gwelliant yn uwch na 100%. Nid oedd modd iddynt wneud eu dewisiadau yn ôl blaenoriaeth.

Ffigur 19



Sylfaen: 86

Fel y dengys Ffigur 19, teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr y gallai'r Llyfrgell flaenoriaethu o bosibl y gwelliannau a'r gweithgareddau canlynol, sef cadw


casgliadau er lles cenedlaethau'r dyfodol (62%) a gwella mynediad i'r llyfrgell drwy ddigideiddio ein casgliadau (56%). Roedd yr atebion a ddewiswyd leiaf aml yn cynnwys darparu mwy o gyfleoedd gwirfoddoli (0%), gwella profiad ymwelwyr yn ein hadeilad yn Aberystwyth (7%) a chynhyrchu adnoddau addysgol ar gyfer ysgolion, colegau a phrifysgolion (8%).

Dewisodd naw y cant o'r ymatebwyr y categori 'arall'. Roedd yr awgrymiadau yn y categori hwn yn cynnwys hwyluso mynediad i'r casgliadau drwy alluogi benthyca ledled Cymru ac ehangu'r casgliadau digidol, ymreolaeth a chyfleusterau pwrpasol ar gyfer Archif Sgrin a Sain Genedlaethol Cymru, gan wneud gwelliannau i adeilad y Llyfrgell yn Aberystwyth, buddsoddi yn staff y Llyfrgell a chanolbwyntio ar gynrychioli diwylliant Cymru.

Adborth ar brofiad cyffredinol defnyddwyr

Mae'r adran hon yn crynhoi'r wybodaeth a gasglwyd am lefelau bodlonrwydd â Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Ffigur 20



Sylfaen: 84, 78, 85, 84, 83, 86

Fel y dengys Ffigur 20, yn gyffredinol dywedodd yr ymatebwyr eu bod yn fodlon iawn â'u profiad cyffredinol o'r Llyfrgell.

Roedd y bodlonrwydd mwyaf i'w weld â staff y Llyfrgell. Roedd 87 o'r ymatebwyr yn cytuno ac un y cant yn anghytuno bod staff y Llyfrgell yn ddefnyddiol, ac roedd 86 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno ac un y cant yn anghytuno bod staff y Llyfrgell yn broffesiynol. Ar y cyfan roedd yr ymatebwyr yn fodlon iawn â gwasanaethau'r Llyfrgell, gydag 86 y cant yn cytuno a phump y cant yn anghytuno â'r datganiad 'Yn gyffredinol, rwy'n fodlon â'r gwasanaeth a gefais gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru'.

Roedd y bodlonrwydd lleiaf yn ymwneud â pha mor glir a hawdd ei deall oedd yr wybodaeth a ddarparwyd gan y Llyfrgell, gyda 65 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno a deg y cant yn anghytuno â'r datganiad hwn.

Gellir crynhoi'n fras y sylwadau agored a'r awgrymiadau ar gyfer gwelliannau i'r Llyfrgell i'r themâu allweddol canlynol: hygyrchedd safle'r Llyfrgell a'r gwasanaethau; ymgysylltiad â'r cyhoedd; staff, a chyllid.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cydnabod bod y cyfrifoldeb dros wella cludiant cyhoeddus y tu allan i gylch gwaith y Llyfrgell. Fodd bynnag, roedd ymatebion i'r arolwg yn cynnwys rhai awgrymiadau ar gyfer gwella'r elfen hon. Roedd y rhain yn cynnwys ehangu'r gwasanaeth bws rhwng y dref a'r Llyfrgell i sicrhau gwasanaethau drwy gydol y flwyddyn, a chreu llwybrau beicio sy'n cysylltu'r Llyfrgell a'r dref. Yn gyffredinol, teimlwyd bod cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus gwael ag Aberystwyth yn cyfyngu ar fynediad i'r Llyfrgell o ardaloedd eraill. Teimlwyd y byddai gwell cysylltiadau rheilffordd a bws i Aberystwyth yn annog mwy o bobl i ymweld â'r safle.

Roedd sawl sylw yn perthyn i'r thema ymgysylltiad â'r cyhoedd a hyrwyddo gwasanaethau a chyfleusterau'r Llyfrgell. Canmolwyd y teithiau Llyfrgell i ddysgwyr Cymraeg, yn ogystal â'r digwyddiadau 'Ar Lafar' blynyddol. Roedd rhai o'r farn y dylai'r Llyfrgell gydweithio â llyfrgelloedd lleol, gyda golwg ar rannu gwybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau'r Llyfrgell. Un awgrym oedd y dylai rhai o wasanaethau penodol y Llyfrgell fod ar gael drwy lyfrgelloedd lleol er mwyn ehangu'r mynediad i wasanaethau. Byddai mwy o waith allgymorth a gweithio mewn partneriaeth yn helpu i oresgyn y dybiaeth, y soniodd rhai amdani, bod yr hyn yr oedd y Llyfrgell yn ei gynnig yn rhy 'arbenigol' i'w defnyddio'n eang.

Awgrym arall oedd datblygu mesur sy'n cofnodi'r defnydd a wneir o ddeunyddiau'r Llyfrgell mewn cyhoeddiadau cenedlaethol a rhyngwladol, er mwyn gwerthuso ehangder a chyrhaeddiad adnoddau'r Llyfrgell yn well.


Yn gyffredinol, roedd yr adborth am y staff yn hynod gadarnhaol, gydag ymatebwyr yn dweud bod y staff yn barod i helpu, yn groesawgar, ac yn meddu ar arbenigedd 'rhagorol' ar y casgliadau. Roedd ychydig iawn o sylwadau yn awgrymu meysydd i'w gwella, er enghraifft, dywedwyd bod staff weithiau'n achosi aflonyddwch drwy siarad yn yr ystafelloedd darllen ac y gall fod rhywfaint o amrywiaeth yng ngwybodaeth ac arbenigedd aelodau o staff. Dywedodd rhai ymatebwyr y dylid cyflogi mwy o staff, a thalu mwy i'r staff presennol. Yn gyffredinol, ystyriwyd bod y staff yn gwneud cyfraniad cadarnhaol iawn at fodlonrwydd y defnyddwyr.

Yn olaf, roedd sylwebwyr yn gadarnhaol yn gyffredinol am swyddogaeth y Llyfrgell fel un o brif ganolfannau diwylliannol Cymru, gydag un ymatebydd yn dweud ei bod yn 'un o berlau diwylliannol Cymru'. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y dylai'r Llyfrgell barhau i gael ei hariannu a'i hyrwyddo'n dda, gyda golwg ar ehangu ei chasgliadau a'i chynulleidfa

Gwybodaeth Ddemograffig

Mae'r adran hon yn crynhoi'r wybodaeth a gasglwyd am ddemograffeg y rhai a ymatebodd i'r holiadur, yn unigolion a sefydliadau.


Ffigur 21



Sylfaen: 88

Fel y dengys Ffigur 21, ymatebodd y mwyafrif (90%) i'r arolwg fel unigolion gyda deg y cant yn ymateb ar ran sefydliadau.


Ffigur 22



Sylfaen: 86

Y duedd gyffredinol oedd bod yr ymatebwyr yn dweud eu bod yn agos yn ddaearyddol at y Llyfrgell yn Aberystwyth. Roedd dros draean o'r ymatebwyr (38%) yn byw yng Ngheredigion, gyda niferoedd uwch o ymatebwyr yn y siroedd cyfagos hefyd, gan gynnwys Sir Gaerfyrddin (12%), Gwynedd (9%) a Phowys (7%). Roedd gan y siroedd sydd bellaf o Aberystwyth niferoedd is o ymatebwyr yn gyffredinol, er enghraifft, Sir Fynwy (0%), Torfaen (0%), Blaenau Gwent (0%), Bro Morgannwg (0%), Wrecsam (0%) a Sir y Fflint (1%). Fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir bob amser, a'r eithriad mwyaf nodedig oedd Caerdydd (13%)


Ffigur 23



Sylfaen: 79

Fel y dengys Ffigur 23, roedd y rhai a ymatebodd i'r arolwg yn amrywio o ran oedran, er y gellir dweud bod cyfran fwy o ymatebwyr canol oed, gydag ychydig o dan hanner yr ymatebwyr rhwng 46-55 oed (23%) a 55-65 oed (23%), ac ychydig iawn o'r ymatebwyr oedd yn 25 oed neu'n iau (1%).


Ffigur 24



Sylfaen: 79

Dywedodd dros hanner yr ymatebwyr (61%) eu bod yn fenywod a nododd tri deg pump y cant eu bod yn wrywod. Roedd yn well gan bedwar y cant o'r ymatebwyr beidio â datgelu eu hunaniaeth o ran rhywedd. Ni ddywedodd unrhyw un ei fod yn uniaethu mewn ffordd arall.

Ffigur 25




Sylfaen: 79

Fel y dengys Ffigur 25, o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg fel unigolion (yn hytrach nag ar ran sefydliadau), defnyddiodd 54 y cant y Llyfrgell fel ymchwilydd a 47 y cant fel defnyddiwr hamdden. Roedd chwech y cant yn defnyddio'r Llyfrgell fel myfyriwr, pedwar y cant fel athrawon ac wyth y cant fel darlithwyr. Noder bod yr ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un ateb ac felly roedd cyfanswm yr holl ymatebion yn uwch na 100%.

Adborth gan Bobl Nad Ydynt Yn Defnyddio Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Mae'r adran hon yn crynhoi'r wybodaeth ynghylch pam nad yw'r rhai nad ydynt yn defnyddio'r Llyfrgell yn gwneud hynny.

Ffigur 26



Sylfaen: 14

Fel y dengys Ffigur 26, o'r ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent wedi defnyddio Llyfrgell Genedlaethol Cymru, dywedodd 13 o'r ymatebwyr (93%) eu bod heb ymweld â'r Llyfrgell yn bersonol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf am eu bod yn byw'n rhy bell i ffwrdd, dau (14%) oherwydd bod modd iddynt gael popeth sydd ei angen arnynt o'r Llyfrgell ar-lein a dau (14%) oherwydd nad ydynt yn credu bod unrhyw beth ar safle'r Llyfrgell a fyddai o ddiddordeb iddynt.

Dywedodd llai na 10 o'r ymatebwyr nad oeddent erioed wedi defnyddio adnoddau digidol y Llyfrgell yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ni chaiff y rhesymau dros beidio â defnyddio'r adnoddau digidol eu rhoi'n llawn oherwydd y niferoedd isel, ond roeddent yn cynnwys diffyg ymwybyddiaeth o'r adnoddau digidol a diffyg diddordeb ynddynt.

Atodiad A – Yr Holiadur

Llyfrgell Genedlaethol Cymru – arolwg defnyddwyr

AMDANOCH CHI

Wrth ateb y cwestiynau canlynol, ystyriwch eich defnydd o Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae gennym ddiddordeb pa mor aml ydych yr ydych wedi defnyddio'r Llyfrgell ar gyfartaledd, felly dewiswch y dewis sydd agosaf at ba mor aml yr ydych wedi defnyddio'r Llyfrgell, hyd yn oed os yw eich defnydd wedi amrywio dros amser.

1. [cwestiwn gorfodol] Pa mor aml yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ydych chi wedi ymweld yn bersonol â Llyfrgell Genedlaethol Cymru?

[Unwaith yr wythnos neu fwy; 2-3 gwaith y mis; Unwaith y mis; Unwaith neu ddwywaith y chwarter; 2-3 gwaith y flwyddyn; Unwaith y flwyddyn neu lai; Byth; Arall, nodwch]

2. [cwestiwn gorfodol] Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, pa mor aml ydych chi wedi defnyddio adnoddau digidol Llyfrgell Genedlaethol Cymru (er enghraifft, y wefan, y catalog ar-lein)?

[Unwaith yr wythnos neu fwy; 2-3 gwaith y mis; Unwaith y mis; Unwaith neu ddwywaith y chwarter; 2-3 gwaith y flwyddyn; Unwaith y flwyddyn neu lai; Byth; Arall, nodwch]

3. A ydych yn ymateb i'r arolwg hwn:

Fel unigolyn

Ar ran sefydliad

4. [I unigolion] Ym mha rinwedd ydych chi wedi defnyddio'r llyfrgell yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? [dewiswch bob un sy'n berthnasol]

Myfyriwr; Athro; Darlithydd; Ymchwilydd; Defnyddiwr hamdden; Llogi lle; Arall, nodwch

5. [I unigolion] Beth yw eich oedran?

o dan 18 oed; 19-25; 26-35; 36-45; 46-55; 56-65; 66-75; Dros 75; Dewis peidio â dweud

6. Ym mha Awdurdod Lleol ydych chi'n byw? [dewislen]
7. [I unigolion] Beth yw eich hunaniaeth o ran rhywedd ?
Gwryw; Benyw; Rwyf yn uniaethu mewn ffordd arall (manylwch); Dewis peidio â dweud
8. [I sefydliadau] I ba fath o sefydliad ydych chi'n gweithio?
Addysg – Ysgol
Addysg – Addysg Bellach
Addysg – Addysg Uwch
Awdurdod Lleol
Llyfrgell
Sefydliad y GIG
Sefydliad iechyd arall (manylwch)
Corff cyhoeddus arall (manylwch)
Elusen neu sefydliad trydydd sector (manylwch)
Sefydliad gwyddonol neu dechnegol
Sefydliad gwybodaeth neu gyfathrebu
Arall (nodwch)

ADBORTH GAN BOBL NAD YDYNT YN DEFNYDDIO LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU [i weld yr adran hon a'r sylwadau agored terfynol]

Adborth gan rai nad ydynt yn defnyddio safle Aberystwyth

9. [I'r rhai a atebodd 'byth' i Gwestiwn 1] Dywedwch wrthym pam nad ydych wedi ymweld yn bersonol â'r llyfrgell yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? (dewiswch bob un sy'n berthnasol)
Rwy'n byw yn rhy bell i ffwrdd
Rwy'n gallu cael popeth sydd ei angen arnaf o'r llyfrgell ar-lein
Mae'n well gen i ddefnyddio llyfrgelloedd eraill
Nid wyf yn credu bod unrhyw beth ar safle'r llyfrgell a fyddai o ddiddordeb i mi
Nid wyf yn ymwybodol o'r hyn y mae'r llyfrgell yn ei gynnig ar y safle
Rwyf wedi ymweld â'r llyfrgell o'r blaen a heb ddod o hyd i'r hyn yr

oeddwn yn chwilio amdano
Arall (Nodwch)

10. Beth fyddai'n eich annog i ymweld yn bersonol â'r llyfrgell yn y dyfodol? [agored]

Adborth gan rai nad ydynt yn defnyddio'r adnoddau digidol

11. [I'r rhai a atebodd 'byth' i Gwestiwn 2] Dywedwch wrthym pam nad ydych wedi defnyddio adnoddau digidol Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? (dewiswch bob un sy'n berthnasol)
Nid oes gen i fynediad rheolaidd at y rhyngwrwyd
Mae'n well gen i beidio â defnyddio'r rhyngwrwyd
Rwy'n gallu cael popeth sydd ei angen arnaf trwy ymweld â'r Llyfrgell yn bersonol
Mae'n well gen i ddefnyddio llyfrgelloedd eraill
Nid wyf yn credu bod gan y llyfrgell unrhyw adnoddau digidol a fyddai o ddiddordeb i mi
Nid wyf yn ymwybodol o'r hyn y mae'r llyfrgell yn ei gynnig yn ddigidol
Rwyf wedi defnyddio adnoddau digidol y llyfrgell o'r blaen heb ddod hyd i'r hyn yr oeddwn yn chwilio amdano
Arall (nodwch)
12. Beth fyddai'n eich annog i ddefnyddio adnoddau digidol Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn y dyfodol?
[agored]

**YMWYBYDDIAETH A PHROFIAD O WASANAETHAU LLYFRGELL
GENEDLAETHOL CYMRU**

13. A ydych yn ymwybodol o'r gwasanaethau canlynol sydd ar gael gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru? [Yn ymwybodol, Ddim yn ymwybodol]
Gwasanaeth ymholiadau
Digiddeiddio ar gais
Gwasanaeth addysg
Gwasanaethau ymchwil
Gwasanaeth reprograffeg
Gwneud cais am gopiâu o bell
14. [Atebwyd gan y rhai sy'n ymwybodol o un gwasanaeth o leiaf] Yn ystod y

flwyddyn ddiwethaf, pa mor aml ydych chi wedi defnyddio'r gwasanaethau canlynol sydd ar gael gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru?

[Unwaith yr wythnos neu fwy; 2-3 gwaith y mis; Unwaith y mis; Unwaith neu ddwywaith y chwarter; 2-3 gwaith y flwyddyn; Unwaith y flwyddyn neu lai; Byth; Arall, nodwch]

Gwasanaeth ymholiadau

Digideiddio ar gais

Gwasanaeth addysg

Gwasanaethau ymchwil

Gwasanaeth reprograffeg

Gwneud cais am gopiâu o bell

15. [Atebwyd gan y rhai a ddefnyddiodd un gwasanaeth o leiaf] Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi gyda'r gwasanaethau canlynol sy'n cael eu darparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru? [Yn fodlon iawn i anffodlon iawn; Nid wyf wedi defnyddio'r gwasanaeth hwn]

Gwasanaeth ymholiadau

Digideiddio ar gais

Gwasanaeth addysg

Gwasanaethau ymchwil

Gwasanaeth reprograffeg

Gwneud cais am gopiâu o bell

16. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau ynghylch sut i wella gwasanaethau'r llyfrgell, nodwch nhw yma.

YMWYBYDDIAETH A PHROFIAD O GYFLEUSTERAU LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU [Atebwyd gan y rhai sydd wedi ymweld yn bersonol]

17. A ydych yn ymwybodol o'r cyfleusterau canlynol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru? [Yn ymwybodol, Ddim yn ymwybodol]

Arddangosfeydd a gwasanaeth dehongli

Ystafelloedd darllen

Mannau tawel

Digwyddiadau Cyhoeddus e.e.
darlithoedd, anerchiadau, cyflwyniadau,
cyngherddau gigiau

Llogi lleoliad

Bwyty

Siop

Digwyddiadau tymhorol arbennig e.e.
siopa Nadolig hwyr

18. [Atebwyd gan y rhai a ddefnyddiodd un cyfleuster o leiaf] Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, pa mor aml y gwnaethoch chi ddefnyddio'r cyfleusterau canlynol yn y llyfrgell?

[Unwaith yr wythnos neu fwy; 2-3 gwaith y mis; Unwaith y mis; Unwaith neu ddwywaith y chwarter; 2-3 gwaith y flwyddyn; Unwaith y flwyddyn neu lai; Byth; Arall, nodwch]

Arddangosfeydd a gwasanaeth dehongli

Ystafelloedd Darllen

Mannau Tawel

Digwyddiadau Cyhoeddus e.e. darlithoedd, anerchiadau, cyflwyniadau, cyngherddau,
gigiau

Llogi lleoliad

Bwyty

Siop

Digwyddiadau tymhorol arbennig e.e. siopa Nadolig hwyr

19. [Atebwyd gan y rhai a ddefnyddiodd o leiaf 1 cyfleuster] Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi gyda'r cyfleusterau canlynol yn y llyfrgell?
[Yn fodlon iawn i anfodlon iawn; Nid wyf wedi defnyddio'r cyfleuster hwn]

Arddangosfeydd a gwasanaeth dehongli

Ystafelloedd Darllen

Mannau Tawel

Digwyddiadau Cyhoeddus e.e. darlithoedd, anerchiadau, cyflwyniadau, cyngherddau,

gigiau

Llogi lleoliad

Bwyty

Siop

Digwyddiadau tymhorol arbennig e.e. siopa Nadolig hwyr

20. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau ynghylch sut i wella'r cyfleusterau yn y llyfrgell, neu gyfleusterau ychwanegol yr hoffech eu gweld ar y safle, nodwch nhw isod.

YMWYBYDDIAETH A PHROFIAD O GASGLIADAU LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

21. A ydych yn ymwybodol o'r casgliadau canlynol a gedwir yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru? [Ymwybodol, Ddim yn ymwybodol]

Archifau a llawysgrifau

Archifau Gwleidyddol

Archifau Cerddoriaeth

Llyfrau printiedig

E-adnoddau

Adneuo Cyfreithiol Electronig

Archif delweddau symudol a sain

Casgliad ffotograffau

Mapiau

Casgliad Celf

Papurau Newydd Hanesyddol

Casgliad Effemera

22. [Atebwyd gan y rhai sy'n ymwybodol o 1 casgliad o leiaf] Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, pa mor aml ydych chi wedi defnyddio'r casgliadau canlynol a gedwir yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru?
[Unwaith yr wythnos neu fwy; 2-3 gwaith y mis; Unwaith y mis; Unwaith neu ddwywaith y chwarter; 2-3 gwaith y flwyddyn; Unwaith y flwyddyn neu lai; Byth; Arall, nodwch]

Archifau a Llawysgrifau
Archifau Gwleidyddol
Archifau Cerddoriaeth
Llyfrau printiedig
E-adnoddau
Adneuo Cyfreithiol Electronig
Archif delweddau symudol a sain Casgliad ffotograffau
Mapiau
Casgliad celf
Papurau Newydd Hanesyddol
Casgliad Effemera

23. Gan feddwl am eich profiad o ddefnyddio'r casgliadau, nodwch i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol:

[cytuno'n gryf i anghytuno'n gryf; amherthnasol]

Roedd yn hawdd dod o hyd i'r hyn yr oeddwn yn chwilio amdano yng nghatalog y llyfrgell

Roedd yn hawdd cael gafael ar yr hyn yr oedd ei angen arnaf o'r casgliadau

Roedd gan staff y llyfrgell wybodaeth dda am y casgliadau

24. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch casgliadau llyfrgell Genedlaethol Cymru, nodwch nhw isod.

EICH DEFNYDD A'CH PROFIAD O'R GWASANAETHAU AR-LEIN

25. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, pa mor aml ydych chi wedi defnyddio'r gwasanaethau ar-lein canlynol sydd ar gael gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru?

[Unwaith yr wythnos neu fwy; 2-3 gwaith y mis; Unwaith y mis; Unwaith neu ddwywaith y chwarter; 2-3 gwaith y flwyddyn; Unwaith y flwyddyn neu lai; Byth; Arall, nodwch]

Catalog ar-lein y llyfrgell

Y siop ar-lein

Ymholiadau ar-lein (gan gynnwys gwasanaeth sgwrsio)

Adnoddau Llyfrgell ar-lein e.e. Papurau Newydd Cymru Ar-lein, Cyfnodolion Cymru, Mapiau Degwm Cymru

Gwybodaeth am y Llyfrgell ar y wefan

26. Gan feddwl am eich profiad o ddefnyddio gwasanaethau ar-lein Llyfrgell Genedlaethol Cymru, nodwch i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol:
[cytuno'n gryf i anghytuno'n gryf; amherthnasol]

Mae gwasanaethau ar-lein Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn ddeniadol i'r llygad

Mae'n hawdd dod o hyd i'r hyn yr wyf yn chwilio amdano trwy wasanaethau ar-lein Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Mae'n hawdd dod o hyd i'r hyn yr wyf yn chwilio amdano drwy wasanaethau ar-lein Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Mae'n hawdd cael gafael ar yr wybodaeth sydd ei hangen arnaf drwy wasanaethau ar-lein Llyfrgell Genedlaethol Cymru

27. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella'r gwasanaethau ar-lein, neu wasanaethau ychwanegol yr hoffech inni eu darparu, nodwch nhw isod.

MYNEDIAD AT WASANAETHAU A GWYBODAETH

28. A yw'n well gennych ddefnyddio gwasanaethau Llyfrgell Genedlaethol Cymru a chael gafael ar wybodaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg?

Yn Gymraeg bob amser neu'n bennaf

Yn Saesneg bob amser neu'n bennaf

Yn Gymraeg ac yn Saesneg

29. [Atebwyd gan y rhai a atebodd 'Yn Saesneg bob amser neu'n bennaf' neu 'Yn Gymraeg ac yn Saesneg'] Gan feddwl am eich profiad cyffredinol o ddefnyddio gwasanaethau Llyfrgell Genedlaethol Cymru a chael gafael ar wybodaeth yn Saesneg, nodwch i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol:

[cytuno'n gryf i anghytuno'n gryf]

Mae'n hawdd cael gafael ar wasanaethau a gwybodaeth gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn Saesneg

Mae'n hawdd rhyngweithio â staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Saesneg

30. [Atebwyd gan y rhai a atebodd 'Yn Gymraeg bob amser neu'n bennaf' neu

'Yn Gymraeg ac yn Saesneg'] Gan feddwl am eich profiad cyffredinol o ddefnyddio gwasanaethau Llyfrgell Genedlaethol Cymru a chael gafael ar wybodaeth yn Gymraeg, nodwch i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlyno [cytuno'n gryf i anghytuno'n bendant]
Mae'n hawdd defnyddio gwasanaethau a chael gafael ar wybodaeth gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn Gymraeg
Mae'n hawdd rhyngweithio â staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Gymraeg

31. A oes gennych unrhyw gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol, salwch, nam neu anabledd hirdymor?

Oes

Nac oes

Dewis peidio â dweud

32. [Os felly] Nodwch i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol [cytuno'n gryf i anghytuno'n gryf, amherthnasol]
Rwy'n ymwybodol o sut i wneud cais am addasiadau rhesymol penodol gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru

Rwy'n ei chael yn hawdd cael gafael ar gasgliadau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Rwy'n ei chael yn hawdd defnyddio cyfleusterau ar safle'r llyfrgell

Rwy'n ei chael yn hawdd cael gafael ar wasanaethau ar-lein Llyfrgell Genedlaethol Cymru

33. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch rhwyddineb defnyddio gwasanaethau a chyfleusterau Llyfrgell Genedlaethol Cymru, nodwch nhw isod.

ADBORTH GAN Y SECTOR ADDYSG (Atebwyd gan y rhai a ddywedodd eu bod yn defnyddio'r gwasanaeth addysg).

34. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, pa agweddau ar y Gwasanaeth Addysg ydych chi wedi eu defnyddio? [wedi defnyddio, heb ddefnyddio]?

Ymweliadau neu ddigwyddiadau a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth Addysg
Adnoddau addysgol ar-lein a ddarparwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru

35. [atebwyd gan y rhai a ddywedodd eu bod wedi bod ar ymweliadau neu mewn digwyddiadau] Gan feddwl am eich profiad o ymweliadau neu ddigwyddiadau a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth Addysg, nodwch i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol: [cytuno'n gryf i anghytuno'n gryf]

Llwyddodd yr ymweliad/digwyddiad i ennyn diddordeb y

disgyblion/myfyrwyr

Cefnogodd yr ymweliad/digwyddiad anghenion cwricwlaidd fy ysgol/coleg yn dda

Cyfrannodd yr ymweliad/digwyddiad at ddealltwriaeth y disgyblion/myfyrwyr o waith a chasgliadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru

36. [atebwyd gan y rhai a ddywedodd iddynt ddefnyddio adnoddau addysgol ar-lein] Gan feddwl am eich profiad o adnoddau addysgol ar-lein a ddarparwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru, nodwch i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau a canlynol:
[cytuno'n gryf i anghytuno'n gryf]

Cyflwynwyd yr adnoddau addysgol ar-lein yn dda

Roedd yr adnoddau addysgol ar-lein yn hawdd eu defnyddio

Cefnogodd yr adnoddau addysgol ar-lein anghenion cwricwlaidd fy ysgol/coleg yn dda

Cyfrannodd yr adnoddau addysgol ar-lein at ddealltwriaeth disgyblion/myfyrwyr o waith a chasgliadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru

37. [pob ymatebydd] Sut, yn eich barn chi, y gallai Llyfrgell Genedlaethol Cymru gefnogi'r sector addysg yn y dyfodol?

[agored]

LLUNIO EIN DYFODOL

38. Pa welliannau neu weithgareddau yr hoffech i ni eu blaenoriaethu yn ystod y pum mlynedd nesaf? Dewiswch hyd at dri ateb.

- Cadw casgliadau er lles cenedlaethau'r dyfodol
- Gwella mynediad i'r Llyfrgell drwy ddigideiddio ein casgliadau
- Gwella mynediad i'r Llyfrgell drwy ymestyn yr oriau agor
- Darparu cymorth i helpu pobl i ddatblygu'r sgiliau i gael gafael ar wybodaeth
- Cynhyrchu adnoddau addysgol ar gyfer ysgolion, colegau a phrifysgolion
- Codi ymwybyddiaeth o'r Llyfrgell ymysg cynulleidfaoedd newydd
- Cynyddu ôl troed y llyfrgell ledled Cymru trwy ddatblygu manau y tu allan i Aberystwyth ar gyfer arddangosfeydd ac orielau
- Cynyddu ôl troed y llyfrgell ledled Cymru drwy greu canolfannau mynediad digidol y tu allan i Aberystwyth

- Gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid er mwyn darparu rhagor o wasanaethau i bobl Cymru
- Hyrwyddo diwylliant Cymru a helpu pobl i ymgysylltu ag ef
- Gwella profiad ymwelwyr yn ein hadeilad yn Aberystwyth
- Gwella rhaglen ddigwyddiadau y Llyfrgell
- Darparu mwy o gyfleoedd gwirfoddoli
- Arall, Nodwch

ADBORTH ar brofiad cyffredinol y defnyddwyr

39. Gan feddwl am eich profiad cyffredinol fel defnyddiwr Llyfrgell Genedlaethol Cymru, nodwch i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol.

[cytuno'n gryf i anghytuno'n gryf, amherthnasol]

Mae staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn broffesiynol

Mae staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn gymwynasgar

Mae'n hawdd cael gafaél ar y wybodaeth sydd ei hangen arnaf gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru

Mae'r wybodaeth a ddarperir gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn glir ac yn hawdd ei deall

Darperir gwybodaeth gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru mewn modd prydlon

Yn gyffredinol, rwy'n fodlon â'r gwasanaeth a gefais gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru

40. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill ar gyfer gwelliannau sy'n ymwneud â Llyfrgell Genedlaethol Cymru, nodwch nhw isod.

[agored]